

## Ffurflen ymateb

1a	Ydych chi'n meddwl bod y model yn dangos gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru?
	Nac ydym.
1b	Os nac ydych chi, pam? A oes rhywbeth ar goll/ddim yn briodol?
	<p>Credwn fod sawl peth yn eisiau o'r weledigaeth a gynigir. Manylwn ar hynny yn ein hymatebion i gwestiynau eraill y ffurflen. Yn ei hanfod, fodd bynnag, nid ydym o'r farn fod y weledigaeth o bresgripsiynu cymdeithasol wedi ystyried y Gymraeg na siaradwyr Cymraeg fel y byddai'n rhesymol disgwyl ei weld. Mae hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oes eglurhad o sut y byddai presgripsiynu cymdeithasol yn cael ei ddarparu yn unol â'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwireddu'r cynnig rhagweithiol sef <a href="#">Mwy na geiriau 2022-27 - sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector iechyd a gofal</a> a gafodd ei lawnsio yn Awst 2022. Gweler ein hateb i gwestiwn 4 am ragor o eglurhad am hyn.</li> <li>• Nid yw'n glir pa sylw nac ystyriaeth sydd wedi ei roi i ofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan ac ar ran nifer o gyrrff cyhoeddus sy'n rhan o drefniadau atgyfeirio a chomisiynu, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol.</li> <li>• Nid oes trafodaeth ynghylch sut y gallasai gweithgareddau a ddarperir gan fudiadau sy'n cynnal gweithgareddau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg ac er budd y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg o bob gallu, fod yn rhan o bresgripsiynu cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i fudiadau megis yr Urdd sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn bennaf yn lleol ac yn genedlaethol; mentrau iaith sy'n cynnig ystod o weithgareddau cymunedol mewn cymunedau ar draws Cymru i bobl o bob oed drwy gyfrwng y Gymraeg; Merched y Wawr sy'n cynnal gweithgareddau ar gyfer merched o bob oed trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru; Ffermwyr Ifanc sy'n cynnal gweithgareddau yn y Gymraeg i bobl ifanc yn bennaf mewn ardaloedd gwledig. Mae angen ystyried swyddogaeth y mudiadau hyn fel rhan o elfennau 'datblygu cymunedol' a 'darparu cymorth yn y gymuned' y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.</li> <li>• Nid oes trafodaeth o fanteision dysgu'r Gymraeg o safbwynt buddiannau llesiant, hunan-barch, hyder, cyswllt cymdeithasol ac yn arbennig yng nghyd-destun y Gymraeg cydlyniant cymunedol, yn ogystal ag fel sgil newydd. Mae'r rhain yn fanteision a drafodir yn y ddogfen ymgynghori fel rhai sy'n deillio o bresgripsiynu cymdeithasol. Dangosodd ymchwil gan Beaufort Research ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Gei Oedolion (ymchwil ar gael gan y Ganolfan) fod 9% o'r rhai a holwyd a oedd yn dysgu</li> </ul>

	Cymraeg neu yn dymuno dysgu Cymraeg fel oedolion yn nodi bod 'cefnogi eu llesiant' yn un cymhelliant dros ddysgu Cymraeg.
2a	Beth yw eich barn am yr iaith / terminoleg a ddefnyddir yn y model a'r naratif ategol? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.
	Gweler isod, dylid pennu'r derminoleg a ddefnyddir yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd mewn trafodaeth â defnyddwyr yn hytrach na chyfieithu i'r Gymraeg unwaith y bydd term wedi'u bennu yn Saesneg.
2b	Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am iaith / terminoleg wahanol? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.
	Fel ym mhob achos o ddatblygu termau Cymraeg a Saesneg a fydd yn cael eu defnyddio mewn maes penodol yng Nghymru, mae'n arfer da datblygu a phennu'r termau addas i'w defnyddio yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Golyga hyn y bydd modd sicrhau bod y termau yn adlewyrchu'r un cysyniad yn y ddwy iaith a'u bod yn gyson â'i gilydd ac yn gyfarwydd i ddefnyddwyr. Mae gweithdrefnau <a href="#">rhyngwladol cytunedig ar safoni a chytuno ar dermau</a> y gellir eu defnyddio wrth wneud hyn.
3	Sut mae datblygu dealltwriaeth gyffredin, ar lefel genedlaethol, o'r iaith / terminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd fel ei gilydd? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.
	Gweler uchod. Dylid pennu'r derminoleg a ddefnyddir yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd mewn trafodaeth â defnyddwyr yn hytrach na chyfieithu i'r Gymraeg unwaith y bydd term wedi'u bennu yn Saesneg. Buasai hyn yn un ffordd o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin am y derminoleg a ddefnyddir yn y maes.
4a	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu gweithwyr proffesiynol (o sefydliadau gofal iechyd, statudol a thrydydd sector) i wybod wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, cydnabod ei werth, a bod yn hyderus wrth gyfeirio pobl ato?
	Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu gofal yn y Gymraeg yn unol â'r cynnig rhagweithiol i siaradwyr Cymraeg. Mae <a href="#">Mwy na geiriau 2022-27, sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector iechyd a gofal</a> yn egluro'r cynnig rhagweithiol fel a ganlyn 'Mae Cynnig Rhagweithiol yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu diwylliant sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i fynd ati i gynnig gwasanaethau Cymraeg er mwyn i bobl allu cael gofal, fel partneriaid cyfartal, drwy gyfrwng y

	<p>Gymraeg' (tud. 8). Mae <i>Mwy na geiriau</i> hefyd yn cyfeirio at nifer o grwpiau blaenoriaeth ar gyfer derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• plant a phobl ifanc</li> <li>• pobl hŷn</li> <li>• pobl ag anableddau dysgu</li> <li>• defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl</li> <li>• pobl sy'n byw â dementia</li> <li>• pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc</li> <li>• pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi iaith a lleferydd</li> </ul> <p>Rydym yn tybio y buasai nifer o bobl o'r grwpiau blaenoriaeth hyn yn defnyddio gwasanaeth presgripsiynau cymdeithasol. Dylai'r gwasanaethau felly fod ar gael iddynt yn unol â'r cynnig rhagweithiol. Credwn y buasai gweithwyr proffesiynol sy'n deall pwysigrwydd darparu gwasanaethau iechyd a lles yn y Gymraeg yn fwy hyderus o atgyfeirio siaradwyr Cymraeg at bresgripsiynu cymdeithasol petaent yn gwybod bod y gwasanaethau hynny ar gael yn Gymraeg.</p>
4b	<p>Yn achos hunanatgyfeiriadau, pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu'r cyhoedd i wybod am wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, cydnabod ei werth, a bod yn ddigon hyderus i gysylltu ag ef?</p>
	<p>Byddai sicrhau bod gwasanaethau presgripsiynau cymdeithasol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i'r sawl fyddai'n dymuno hynny yn unol ag egwyddor y cynnig rhagweithiol (gweler uchod ein hateb i gwestiwn 4a) yn un ffordd amlwg o sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn ddigon hyderus i gysylltu â'r gwasanaethau a'u defnyddio.</p>
4c	<p>Yn achos atgyfeiriadau wedi'u targedu, pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu sefydliadau i nodi poblogaethau/grwpiau penodol o bobl a allai elwa ar gysylltu â gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?</p>
	<p>Ar lefel genedlaethol dylid sicrhau bod cyfarwyddyd cenedlaethol yn nodi bod angen adnabod a chofnodi dewis iaith pob unigolyn sy'n cael eu hatgyfeirio neu'n cyfeirio eu hunain at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol. Rhaid sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn lleol.</p>
5	<p>Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi sefydliadau/grwpiau sy'n cynnig cymorth yn y gymuned i ymwneud â gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol?</p>
	<p>I nifer o bobl gall derbyn gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'u dewis iaith ac sy'n gyson â'u hunaniaeth a'u diwylliant</p>

	<p>gyfrannu at eu llesiant. Nid ydym yn ymwybodol o ymchwil benodol sy'n ymwneud â phresgripsiynu cymdeithasol yn hyn o beth, ond dangosodd ymchwil '<a href="#">Language and Culture in the Caregiving of People with Dementia in Care Homes - What Are the Implications for Well-Being? A Scoping Review with a Welsh Perspective</a>' fod diffyg gofal oedd yn unol â'u hiaith a'i diwylliant (<i>cultural and linguistic congruity</i>) yn niweidiol i bobl oedd yn byw â dementia mewn cartrefi gofal. Felly, ar lefel genedlaethol mae angen cefnogi a hwyluso sefydliadau/grwpiau sy'n cynnig cymorth yn y gymuned i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg yn unol ag egwyddor y cynnig rhagweithiol. Dylai'r ddogfen ymgynghori danlinellu pwysigrwydd presgripsiynau cymdeithasol Cymraeg a rhai sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol unigolion felly, ac fe ddylai hwyluso hynny fod yn rhan ganolog o'r strategaeth hon.</p> <p>Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried sut y gallasai gweithgareddau a ddarperir gan fudiadau sy'n cynnal gweithgareddau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg ac er budd y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg o bob gallu, fod yn rhan o bresgripsiynu cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i fudiadau megis yr Urdd sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn bennaf; mentrau iaith sy'n cynnig ystod o weithgareddau cymunedol ar draws Cymru i bobl o bob oed drwy gyfrwng y Gymraeg; Merched y Wawr sy'n cynnal gweithgareddau ar gyfer merched o bob oed trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Cymru; Ffermwyr Ifanc sy'n cynnal digwyddiadau i bobl ifanc mewn mannau gwledig. Mae angen ystyried swyddogaeth y mudiadau hyn fel rhan o elfennau 'datblygu cymunedol' a 'darparu cymorth yn y gymuned' y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol. Ar lefel genedlaethol felly dylid amlygu'r cyfleoedd hyn i wasanaethau presgripsiynu lleol.</p>
6a	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?
	Dim sylw.
6b	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol gan wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol at gymorth yn y gymuned?
	Dim sylw.
7	Pa gamau y gellid eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi arweinyddiaeth gref a threfniadau llywodraethu effeithiol?
	Ym mis Awst 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun <a href="#">Mwy na geiriau 2022-27 ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal</a> . Mae'r cynllun yn tanlinellu pwysigrwydd arweinyddiaeth gref er mwyn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn unol â'r cynnig rhagweithiol ar gael. Nodir yn y ddogfen 'bydd angen arweinyddiaeth gref arnom i fynd ati i weithredu i drawsnewid y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y dyfodol, i greu'r symbyliad ar

	<p>gyfer newid a chreu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg bob dydd yn y gwaith. Byddwn yn cyflawni hyn yn unol â'r egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol a ddisgwylir ym mhob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol' (tud. 12). Rydym yn awgrymu eich bod yn ymgorffori'r ystyriaeth a roddir i arweinyddiaeth a'r Gymraeg ym <i>Mwy na geiriau</i> yn natblygiad y fframwaith hwn.</p> <p>Mae cam gweithredu 11 <i>Mwy na geiriau 2022-27</i> yn nodi y 'dylai pwysigrwydd y Cynnig Rhagweithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau o safon gael ei gynnwys yn y canllawiau a'r gofynion adrodd ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd a'r safonau iechyd a gofal diwygiedig. Daeth y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ('y Ddeddf') yn gyfraith ar 1 Mehefin 2020, a bydd yn cael ei gweithredu'n llawn erbyn gwanwyn 2023. Mae hyn yn cynnwys ailffurfio ac ehangu'r ddyletswydd ansawdd bresennol ar gyrff y GIG' (tud 17). Dylai'r fframwaith hwn ar gyfer presgripsiynau cymdeithasol felly fod yn gyson â'r ddyletswydd ansawdd a'r safonau iechyd a gofal disgwylidig a fydd, yn ôl <i>Mwy na geiriau</i>, yn ymgorffori pwysigrwydd y cynnig rhagweithiol.</p> <p>Argymhellwn yn gryf eich bod yn trafod sut gellir sicrhau fod y strategaeth hon yn gyson â <i>Mwy na geiriau 2022-27</i> drwy drafod â'r sawl sy'n gyfrifol am y Gymraeg mewn iechyd a gofal o fewn Llywodraeth Cymru.</p>
8	<p>Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi'r broses gomisiynu a helpu i gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu model lleol sy'n diwallu anghenion eu cymuned?</p>
	<p>Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi 'Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl i'w chwarae wrth arwain ar ddatblygu a gweithredu'r model. Bydd disgwyl iddyn nhw weithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gysylltu â'u cynlluniau llesiant lleol, ynghyd â chlystyrau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal yn lleol er mwyn sicrhau cyfeiriad clir a dull gweithredu cydgysylltiedig'. Mae'r cynigion hyn yn ymddangos yn synhwyrol cyhyd â bod cynlluniau ardal a ddatblygir gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg yn llawn; ac mae'r un peth yn wir am y cynlluniau llesiant a ddatblygir gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn y gorffennol, nid yw'r Comisiynydd wedi bod o'r farn fod yr asesiadau sy'n sail i'r cynlluniau ardal wedi ystyried y Gymraeg yn ddigonol., (gweler er enghraifft ein sylwadau yn yr ymateb i ymgynghoriad <a href="#">ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth</a> am eglurhad ynghylch hyn). Deallwn fod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bellach yn y broses o lunio eu cynlluniau ardal newydd ar sail eu hasesiadau o'r boblogaeth a bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu eu cynlluniau llesiant. Drwy drafod gyda Llywodraeth Cymru yn achos y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a chyda Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn achos y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rydym wedi pwysleisio'r angen i'r cynlluniau ardal a'r cynlluniau llesiant fod yn gyson â strategaethau hybu'r</p>

Gymraeg pob awdurdod lleol. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i gyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut y bwriadant hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardaloedd. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg [Ganllaw arfer da i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol](#) wrth lunio'r strategaethau hybu hyn. Credwn y buasai'n fuddiol ichi ystyried cynnwys y ddogfen, gan gynnwys rhestr enghreifftiol o randdeiliaid perthnasol i'r strategaethau hybu, wrth gymryd camau ar lefel genedlaethol i gefnogi'r broses o ddatblygu model lleol sy'n diwallu anghenion cymunedau.

Nodir yn ogystal yn y ddogfen 'Bydd angen i'r broses o gyflwyno'r model yn llwyddiannus yn lleol gael ei hategu gan broses ddeallus o gomisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar asesiadau cadarn o anghenion y boblogaeth, gyda'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau presgripsiynau cymdeithasol a chymorth yn y gymuned gydol y cylch comisiynu.' Fel y nodwn uchod, yn y gorffennol rydym wedi bod yn bryderus nad yw'r asesiadau o anghenion y boblogaeth wedi ystyried y Gymraeg yn ddigonol; mawr obeithiwn fod yr asesiadau diweddar yn rho gwell ystyriaeth i'r Gymraeg. Erbyn hyn mae gofyn i awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddluoedd a gwasanaethau tân gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r cyrff hyn i gyd yn cael eu henwi yn y ddogfen fel rhai all fod yn rhan o lwybr atgyfeirio unigolion i bresgripsiynau cymdeithasol. Mae'r safonau penodol sy'n berthnasol i'r cyrff hyn yn deillio o reoliadau'r perthnasol i'w sectorau hwy ac maent yn amrywio rhywfaint. Bydd gan bob corff perthnasol hysbysiad cydymffurfio (sydd i'w gweld ar wefan y Comisiynydd) sy'n nodi'r safonau y mae disgwyl iddynt gydymffurfio â hwy. Rhaid iddynt oll er hynny, gydymffurfio â safonau yn yr un meysydd sef safonau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisiau, gweithredu (sef gweithgareddau mewnol sefydliad gan gynnwys datblygu'r gweithlu) a chadw cofnodion (a hybu fel y nodir uchod yn achos awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol). [Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) yn egluro 'os bydd trydydd parti yn cyflawni gweithgaredd neu'n darparu gwasanaeth, a hynny: ar ran y corff sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau, ac o dan drefniadau a wneir rhwng y corff a'r trydydd parti rhaid i'r corff sicrhau bod y trydydd parti yn cydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw.' Dylid amlygu'r gofyniad hwn mewn unrhyw gamau y bwriedir eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi'r broses gomisiynu presgripsiynau cymdeithasol gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddluoedd a gwasanaethau tân ac achub.

Deallwn fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth yn dilyn cyhoeddi'r [Papur Gwyn ar Ailgydbwyso gofal a chymorth](#). Dylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys arweiniad cryf ynghylch sut mae comisiynu gofal a chymorth yn y Gymraeg ac yn unol â safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol. Dylai'r camau y bwriedir eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi'r broses gomisiynu

	presgripsiynau cymdeithasol adlewyrchu'r arweiniad cryf hwn y gobeithiwn ei weld yn y fframwaith cenedlaethol arfaethedig.
9a	A yw'r cyfeiriaduron a'r ffynonellau gwybodaeth ar-lein presennol yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch (mewn fformat hygyrch) i wneud penderfyniadau am addasrwydd ac argaeledd cymorth yn y gymuned?
	Nid ydym yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori gan nad ydym yn ymwneud â'r broses o ddarparu cymorth yn y gymuned. Yn unol â'n hymateb i gwestiwn 1 credwn fod angen sicrhau bod gweithgareddau a ddarperir gan fudiadau sy'n cynnal gweithgareddau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg ac er budd y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg o bob gallu gael eu cynnwys yn y ffynonellau, yn ogystal â gwybodaeth am gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg. Mae <a href="#">Adroddiad 5 mlynedd Comisiynydd y Gymraeg</a> yn nodi 'Wrth i ni symud yn y dyfodol i fyd o wasanaethau digidol, rhaid sicrhau nid yn unig argaeledd gwasanaethau yn Gymraeg, ond bod adnodd yn cael ei neilltuo hefyd i hybu a hwyluso eu defnydd' (tud. 168). Felly, yn ogystal â sicrhau bod cyfeiriaduron ar gael yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg, dylid hwyluso defnyddio'r cyfeiriaduron yn y Gymraeg drwy roi'r dewis rhagweithiol o opsiwn Cymraeg wrth i bobl eu defnyddio.
9b	Ydych chi'n defnyddio unrhyw gyfeiriaduron / ffynonellau gwybodaeth ar-lein eraill?
	Nid ydym yn defnyddio'r cyfeiriaduron/ ffynonellau gwybodaeth y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori gan nad ydym yn ymwneud â'r broses o ddarparu cymorth yn y gymuned. Dylem nodi fod gwybodaeth ar gael am weithgareddau a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg mewn mannau megis lleol.cymru a gwefannau lleol <a href="#">Bro 360</a> fydd mewn sawl achos yn cynnwys dolenni at fersiynau digidol o bapurau bro fydd yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau cymunedol lleol.
9c	Yn eich barn chi, beth yw'r elfennau allweddol y dylai cyfeiriaduron ar-lein eu darparu i helpu pobl i gael gafael ar gymorth yn y gymuned?
	Dylai cyfeiriaduron gynnwys gwybodaeth am weithgareddau y mae modd i bobl gymryd rhan ynddynt yn y Gymraeg waeth beth fo lefel eu hyder a'u rhuglder. Dylent gynnwys eglurhad o'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg y dylai defnyddwyr ddisgwyl ei dderbyn. Dylent gynnwys gwybodaeth am fanteision siarad a defnyddio'r Gymraeg ac anogaeth i wneud hynny wrth fanteisio ar gymorth yn y gymuned os yw pobl yn dymuno hynny. Dylai cyfeiriaduron ar-lein hwyluso'r cyfle i'w defnyddio yn Gymraeg, gweler yr arweiniad sydd ar gael yn nogfen y Comisiynydd <a href="#">technoleg-gwefannau-a-</a>

	<a href="#">meddalwedd-technology-websites-and-software.pdf</a> ( <a href="#">comisiynyddygydraeg.cymru</a> ) yn hyn o beth.
10a	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad?
	Mae tystiolaeth ddiweddar a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dangos y byddai'n well gan 41% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd naill ai ddefnyddio'r Gymraeg bob tro, neu dderbyn gwasanaethau ddwyieithog gan gyrff cyhoeddus. O safbwynt siaradwyr Cymraeg felly, dylid sicrhau bod gwasanaethau presgripsiynau cymdeithasol ar gael yn unol ag egwyddor y cynnig rhagweithiol fel na ddylai unigolion orfod gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg. Yn y maes iechyd a gofal yn benodol dylai'r camau gweithredu a'r egwyddorion sy'n rhan o gynllun <i>Mwy na geiriau</i> gael eu hymgorffori ar lefel genedlaethol a lleol wrth lunio a gweithredu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol hwn. Dylid darparu'r gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus perthnasol neu ar eu rhan gan gyrff trydydd sector yn unol â safonau'r Gymraeg (Gweler ein hymateb i gwestiwn 8 am eglurhad o hyn). Mae data Comisiynydd y Gymraeg yn awgrymu y byddai rhagor o bobl yn defnyddio'r Gymraeg pe bai sefydliadau yn gwneud mwy i hwyluso defnyddio'r Gymraeg a'u bod yn gallu gwarantu gwasanaethau Cymraeg
10b	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad sy'n wynebu grwpiau mwy agored i niwed ac sydd dan anfantais?
	Gweler uchod. Dylai'r camau a gymerir ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad sy'n wynebu grwpiau mwy agored i niwed ac sydd dan anfantais hwyluso gweithrediad safonau'r Gymraeg gan gyrff cyhoeddus (neu drydydd partion ar eu rhan), a hwyluso darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg gan gyrff eraill nad ydynt yn gweithredu yn unol â safonau'r Gymraeg. Mae'n bosibl y buasai nifer o siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau o wybod eu bod ar gael iddynt yn Gymraeg.
11a	A ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned i helpu i liniaru pryderon diogelu?  Dylai / Na ddylai / Ddim yn siŵr
	Dim sylw.
11b	Os ydych wedi ateb 'dylai', beth yw'r pethau allweddol y dylai'r safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth cymunedol eu cynnwys?



	Dim sylw.
11c	Os ydych wedi ateb 'na ddylai' neu 'ddim yn siŵr', beth yw eich prif bryderon am gyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned, a sut gellid mynd i'r afael â nhw?
	Dylai unrhyw safonau cenedlaethol gydnabod a hwyluso gofynion safonau'r Gymraeg ac egwyddor y cynnig rhagweithiol.
12	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer cymorth yn y gymuned?
	Mae diffyg cysylltiad gwe mewn ardaloedd gwledig neu ddiffyg sgiliau technolegol yn aml yn rhwystr rhag defnyddio technoleg ddigidol. Mae angen cymryd camau ar lefel genedlaethol i geisio goresgyn y rhwystrau hyn. Maent wedi golygu bod rhai wedi eu hamddifadu o'r cyfleoedd cymdeithasol digidol gan effeithio ar eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
13	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol i sicrhau trefniadau ariannu hirdymor?
	Dim sylw.
14	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i liniaru effaith y galw cynyddol ar asedau cymunedol lleol a gweithgareddau llesiant?
	Dim sylw.
15	Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?
	Dylid mesur dewis iaith y sawl sy'n cael eu hatgyfeirio; nifer y presgripsiynau cymdeithasol Cymraeg a ddarperir, gallu'r gweithlu i ddarparu presgripsiynau cymdeithasol yn y Gymraeg; ac effaith darparu presgripsiynau cymdeithasol yn Gymraeg ar lesiant siaradwyr Cymraeg. Byddai'r mesuriadau hyn yn fodd o fesur effaith presgripsiynu cymdeithasol yn y Gymraeg, yn ogystal â'r angen am bresgripsiynau Cymraeg a gallu'r gwasanaethau i'w darparu yn y Gymraeg. Byddai gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol er budd cynyddu capasiti darparu presgripsiynau cymdeithasol Cymraeg. Awgrymw'n eich bod yn ymgorffori camau gweithredu <a href="#">Mwy na geiriau 2022-27</a> mewn perthynas â mesur y broses o gyflawni allbynnau yn y fframwaith hwn; gweler er enghraifft gam gweithredu 7 ac adran 4 ar fonitro cynnydd.
16a	A oes gennych unrhyw dystiolaeth ymchwil neu werthuso yr hoffech ei rhannu â ni?
	Dim sylw.

16b	A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellir ac y dylid gwerthuso'r ffordd mae'r fframwaith cenedlaethol yng Nghymru yn gweithredu?
	Yn ddi-os dylid gwerthuso'r graddau y mae'r fframwaith cenedlaethol yn sicrhau bod presgripsiynau cymdeithasol ar gael i siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru yn unol ag egwyddor y cynnig rhagweithiol. Dylid gwerthuso effaith presgripsiynau Cymraeg a rhai sy'n ddiwylliannol gydnaws â hunaniaeth pobl, ar lesiant unigolion er mwyn gosod sail tystiolaeth ar gyfer manteision llesiant presgripsiynau cymdeithasol yn y Gymraeg ac er mwyn cynllunio i'r dyfodol.
17a	Beth yw'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol y dylai'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig eu cynnwys?
	<p>Dylai'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig gynnwys y Gymraeg fel sgil allweddol. Byddai hyn yn fodd o alluogi darparu presgripsiynau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae safonau gweithredu y mae disgwyl i gyrrff iechyd, awdurdodau lleol, heddluoedd a gwasanaethau tân gydymffurfio â hwy yn ymwneud â meithrin sgiliau Cymraeg y gweithlu drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu. Dylai'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig adlewyrchu gofynion y safonau hyn. Gweler ein hymateb i gwestiwn 19 am ragor o wybodaeth am y safonau gweithredu.</p> <p>Mae cyrsiau Cymraeg sydd wedi'u hachredu'n academiaidd ar gael ar bob lefel i bobl sy'n dysgu'r Gymraeg. Bydd rhai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn cynnig y cyrsiau hyn yn fewnol i'w staff ond mae cyrsiau hefyd yn cael eu cynnig gan ddarparwyr trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac mae nifer ohonynt ar gael yn ddigidol. Mae nifer o gyrsiau ar gael drwy gynllun <a href="#">Cymraeg Gwaith</a> y Ganolfan yn benodol i gryfhau sgiliau Cymraeg at bwrpas gwaith. Dylai'r fframwaith hefyd gynnwys yr angen am ymwybyddiaeth ieithyddol a dealltwriaeth o'r cynnig rhagweithiol er mwyn i weithwyr ddeall pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Buasem yn eich annog i drafod y fframwaith â'r swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu <a href="#">Mwy na geiriau 2022-27</a> o fewn Llywodraeth Cymru, gan ei fod yn cynnwys camau gweithredu penodol mewn perthynas â dysgu'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth ieithyddol ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal (gweler camau gweithredu 13-19 ar gyfer gweithlu'r presennol, a chamau gweithredu 20-28 ar gyfer gweithlu'r dyfodol) a hynny yn benodol er mwyn gweithredu egwyddor y cynnig rhagweithiol.</p>
17b	Sut orau y gall y fframwaith cymhwysedd arfaethedig ategu'r safonau proffesiynol presennol?
	Gweler ein hateb uchod i gwestiwn 17a uchod. .
18	A oes manteision a/neu anfanteision o ran addysg a hyfforddiant i fod yn sail i'r fframwaith cymhwysedd, sydd wedi'u hachredu'n academiaidd?

	Gweler ein hateb uchod i gwestiwn 17a uchod ynghylch hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a dysgu'r Gymraeg.
19	Pa gamau eraill y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol er mwyn helpu i ddatblygu'r gweithlu?
	<p>Gweler ein hateb uchod i gwestiwn 17a. Mae camau gweithredu o fewn <i>Mwy na geiriau 2022-27</i> ar gyfer datblygu sgiliau'r gweithlu iechyd a'u hymwybyddiaeth ieithyddol. Dylai camau sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu o fewn y fframwaith hwn fod yn gyson â <i>Mwy na geiriau 2022-27</i> a safonau'r Gymraeg.</p> <p>Fel y nodwyd eisoes mae gofyn i awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddluoedd a gwasanaethau tân gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau hyn yn cynnwys safonau gweithredu penodol ynghylch meithrin sgiliau Cymraeg y gweithlu drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu. Mae gofyn er enghraifft, i'r cyrff hyn asesu sgiliau eu gweithlu; rhoi cyfle i staff gael gwersi Cymraeg a hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn rhai amgylchiadau; cyrsiau hyfforddi ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal, wrth asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg. Mae gofyn iddynt hefyd ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn feynol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ogystal. Dylai'r camau a gymerir ar lefel genedlaethol hwyluso gweithredu'r safonau hyn.</p>
20a	<p>Beth yw eich profiadau cyfredol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn y meysydd presgripsiynu cymdeithasol isod?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y broses atgyfeirio</li> <li>• Y broses asesu</li> <li>• Cael gafael ar gymorth yn y gymuned</li> <li>• Darparu cymorth yn y gymuned</li> <li>• Rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau / canlyniadau</li> <li>• Rhannu gwybodaeth / arferion da</li> </ul>
	<p>Nid oes gennym brofiad o ddefnyddio technoleg ddigidol yn y meysydd presgripsiynu cymdeithasol uchod. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â'r cynnig rhagweithiol rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan o bob cam uchod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai anghenion/dymuniad ieithyddol pob unigolyn fod yn rhan o'r broses atgyfeirio ac asesu. Rhaid gofyn a chofnodi dewis iaith pob unigolyn a rhaid rhannu'r wybodaeth trwy dechnoleg (ac fel arall) er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai bod modd cael gafael ar bresgripsiynau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg a dylai'r strategaeth hwyluso darparu cymorth yn y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg, gweler ein hateb i gwestiwn 1 yn hyn o beth.</li> <li>• Dylai gwybodaeth am anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg gael eu casglu er mwyn cynllunio a darparu presgripsiynau cymdeithasol yn y Gymraeg a dylai fod yn rhan o'r dull o adrodd ar allbynnau a chanlyniadau</li> <li>• Rhaid rhannu gwybodaeth am bwysigrwydd presgripsiynau cymdeithasol yn y Gymraeg ac arferion da, yn ogystal â lle a sut mae modd cael gafael arnynt yn y Gymraeg. Mae <a href="#">Mwy na geiriau 2022-27</a> yn tanlinellu pwysigrwydd rhannu arfer da am wasanaethau Cymraeg yn y sector iechyd a gofal.</li> </ul>
20b	<p>Sut gallai defnyddio technoleg ddigidol wella'r modd y darperir presgripsiynu cymdeithasol yn y meysydd canlynol?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y broses atgyfeirio</li> <li>• Y broses asesu</li> <li>• Cael gafael ar gymorth yn y gymuned</li> <li>• Darparu cymorth yn y gymuned</li> <li>• Rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau / canlyniadau</li> <li>• Rhannu gwybodaeth / arferion da</li> </ul>
	<p>Fel y nodwyd uchod, gall technoleg ddigidol alluogi cofnodi a rhannu gwybodaeth am ddewis iaith siaradwyr Cymraeg rhwng asiantaethau a darparwyr. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei throsglwyddo a'i defnyddio er mwyn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg ddilyn presgripsiynau cymdeithasol yn y Gymraeg.</p> <p>Gall technoleg ddigidol hefyd gasglu gwybodaeth am y ddarpariaeth presgripsiynau cymdeithasol sydd ar gael yn y Gymraeg a gallu'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma wybodaeth y gellir ei defnyddio i gynllunio gwasanaethau.</p>
21a	<p>Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?</p>
	<p>Mae'n bosibl y buasai presgripsiynu cymdeithasol yn gallu cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg os sicheir bod y presgripsiynau hynny ar gael yn y Gymraeg. Rydym wedi cyfeirio yn ein hymateb i gwestiwn 1 a'r cwestiynau dilynol at fylchau sydd yn y fframwaith hwn o safbwynt y Gymraeg. Oni fydd y</p>

	<p>fframwaith yn ystyried yr agweddau hynny mae'n bryder gennym a fydd y strategaeth yn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r materion hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eglurhad o sut y byddai presgripsiynu cymdeithasol yn cael eu darparu yn unol â'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg.</li> <li>• Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan ac ar ran nifer o gyrff cyhoeddus sy'n rhan o drefniadau atgyfeirio a chomisiynu, gan gynnwys yr heddluoedd, gwasanaethau tân ac achub, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol. Dylai'r fframwaith hwyluso cydymffurfiaeth cyrff â safonau'r Gymraeg.</li> <li>• sut y gallasai gweithgareddau a ddarperir gan fudiadau sy'n cynnal gweithgareddau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg ac er budd y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg o bob gallu, fod yn rhan o bresgripsiynu cymdeithasol.</li> <li>• manteision dysgu'r Gymraeg y tu hwnt i ddysgu sgil newydd, o safbwynt buddiannau llesiant, hunan-barch, hyder, cyswllt cymdeithasol ac yn arbennig yng nghyd-destun y Gymraeg cydlyniant cymunedol.</li> </ul>
21b	<p>Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gallai'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad yw'n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>
	<p>Mae gofyn i Weinidogion Cymru gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau hyn yn cynnwys safonau llunio polisi sy'n ymwneud â chyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi (<a href="#">gweler safonau 91-93 yn hysbysiad cydymffurfio Gweinidogion Cymru ar wefan Comisiynydd y Gymraeg</a>). Mae'r safonau hyn yn fodd o sicrhau bod dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi yn ystyried ac yn ceisio barn ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniadau yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio. Fel yr ydym eisoes wedi'i nodi mae tystiolaeth yn dangos pa mor bwysig yw darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg i lawer o siaradwyr Cymraeg (gweler er enghraifft <a href="#">Language and Culture in the Caregiving of People with Dementia in Care Homes - What Are the Implications for Well-Being? A Scoping Review with a Welsh Perspective</a> mewn perthynas â dementia; blog sy'n tanlinellu pwysigrwydd gofal iechyd meddwl yn y Gymraeg <a href="#">The importance of mental health care in Welsh - Mind</a>). Nid yw'n eglur inni a ystyriwyd effeithiau posibl y fframwaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth lunio'r ymgynghoriad hwn. Yn wir, nid oes cyfeiriad o gwbl at bresgripsiynu cymdeithasol a'r Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori. Mae hynny er gwaetha'r pwyslais sydd yn <a href="#">Strategaeth Cymraeg 2050</a> Llywodraeth Cymru ar gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r</p>

	<p>Gymraeg mewn gweithleoedd ac yn y gymuned. Rydym yn nodi yn ein hymatebion i gwestiynau 1 a 21a uchod rai o'r ystyriaethau amlwg mewn perthynas â'r Gymraeg y tybiwn ddylai fod yn rhan o'r ymgynghoriad ar y fframwaith hwn er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Ymhellach, nid yw'r dogfennau ymchwil yn y maes, y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori, yn trafod presgripsiynu cymdeithasol yn y Gymraeg (gweler <a href="#">Social Prescribing in Wales (2018)</a> a gyhoeddwyd yn 2018 gan yr Hyb Gofal Sylfaenol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, <a href="#">Deall rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru: astudiaeth dulliau cymysg</a> (Medi 2021) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol De Cymru, Data Cymru ac Ysgol Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru (WSSPR)). Eglurir mai 'Nod y gwaith [<a href="#">Deall rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru: astudiaeth dulliau cymysg</a>] oedd amlinellu'r llinell sylfaenol ar gyfer datblygu fframwaith cenedlaethol, gan gynnwys dealltwriaeth o'r rhyngweithio rhwng defnyddwyr gwasanaethau a phrosiectau presgripsiynu cymdeithasol, y gweithlu presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru, ac effaith pandemig COVID-19 hefyd.' Buasem yn disgwyl y byddai dealltwriaeth o'r ddarpariaeth Gymraeg yn rhan hanfodol o geisio deall y 'llinell sylfaenol' ar gyfer datblygu fframwaith cenedlaethol. Mae hynny o ystyried y <a href="#">nodau llesiant cenedlaethol cysylltiedig</a> sy'n ymgorffori'r Gymraeg; amcanion <a href="#">Mwy na qeiriau 2022-27</a>; a bwriadau <a href="#">Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011</a> a pherthnasedd dyletswyddau cyfreithiol safonau'r Gymraeg, yn ogystal â tharged Strategaeth Gymraeg 2050 o gynnydd o 10% yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.</p> <p>Yn dilyn ystyried y ddogfen ymgynghori hon mae'r Comisiynydd yn ystyried cydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru gyda safonau'r Gymraeg, ac mae'n bosibl y bydd gohebiaeth bellach yn dilyn gennym mewn perthynas â hynny.</p>
22	<p>Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod:</p>
	<p>Dim sylw.</p>